# Anesthetig cyffredinol:

## Risgiau a sgil-effeithiau

Mae pawb yn wahanol ac nid yw'n bosibl gwybod pwy fydd yn profi sgil-effaith neu risg. Mae rhai o'r rhain yn fwy tebygol ymysg pobl sydd â chyflyrau iechyd presennol neu sydd angen llawdriniaethau penodol.



Mae'r rhifau isod yn dangos canlyniadau cyfartalog o astudiaethau ymchwil. Roedd y bobl yn yr astudiaethau fel arfer yn cael llawdriniaeth arferol, roedd eu pwysau'n iach ac nid oedd ganddynt gyflyrau iechyd penodol.





Mae gwybodaeth am yr ymchwil a ddefnyddiwyd gennym ar gael yma: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/risks/evidence.

**Gall eich risgiau chi fod yn uwch neu'n is na'r rhifau hyn. Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi'r risgiau sydd yn fwy tebygol, neu'n fwy arwyddocaol i chi.**


Mae rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o anesthesia ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.

**Mae'r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 100.**

| Beth ddigwyddodd? | | Am ba hyd? | Faint? O bob 100 o bobl (cant o bobl) |
|---|---|---|---|
|  | **Crynu** | Am 20–30 munud yn yr ystafell wella |  **15** wedi profi hyn **85** heb brofi hyn |
|  | **Cyfog (teimlo'n gyfoglyd)** | Am 1–24 awr |  **Tua 15** wedi profi hyn **Tua 85** heb brofi hyn |
|  | **Dolur gwddf/Gwddf tost** | Am 24–48 awr |  **20–40** wedi profi hyn **60–80** heb brofi hyn<br>Yn dibynnu ar y math o diwb anadlu a ddefnyddiwyd |
|  | **Cleisio neu boen** yn sgil pigiadau. | Yn diflannu mewn ychydig ddyddiau |  **10** wedi profi hyn **90** heb brofi hyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | **Mân anaf i'r wefus neu'r tafod** | Yn gwella mewn ychydig ddyddiau | <br>**1–5** wedi profi hyn | **95–99** heb brofi hyn |
|  | **Haint ar y frest** | Am ddyddiau neu wythnosau | <br>**20** wedi profi hyn | **80** heb brofi hyn |
|  | **Dod yn ddryslyd (deliriwm)** | Am ddyddiau, wythnosau neu fisoedd | <br>**10–50** wedi profi hyn | **50–90** heb brofi hyn |

**Mae'r risgiau a restrir isod yn brin.**
Mae'r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 10,000.

| **Beth ddigwyddodd?** | | **Am ba hyd?** | **Faint?<br>O bob 10,000 o bobl<br>(deg mil o bobl)** | |
|---|---|---|---|---|
|  | **Niwed i ddannedd** | Angen gweld deintydd | Roedd angen i **5** weld deintydd | Nid oedd angen i **9,995** weld deintydd |
|  | **Golwg aneglur, llid neu boen yn y llygaid** oherwydd crafiad bach neu lygaid sych. | Rhai dyddiau | **Tua 5** wedi profi hyn | **Tua 9,995** heb brofi hyn |
|  | **Goglais, fferdod, poen neu wendid** (niwed i'r nerfau). | Dros dro (wythnosau i fisoedd)<br><br>Parhaol | **1–5** wedi profi hyn<br><br>**1** wedi profi hyn | **9,995–9,999** heb brofi hyn<br><br>**9,999** heb brofi hyn |
|  | **Adwaith alergaidd difrifol (anaffylacsis)** | Yn digwydd yn gyflym<br>Wedi'i drin ar unwaith | **1** wedi profi hyn | **9,999** heb brofi hyn |
|  | **Ataliad ar y galon, ee y galon yn stopio curo yn ystod llawdriniaeth** | Wedi'i drin ar unwaith | **3** wedi profi hyn | **9,997** heb brofi hyn |

Mae'r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 100,000.

| | Beth ddigwyddodd? | Faint?<br>O bob 100,000 o bobl<br>(can mil o bobl) | |
|---|---|---|---|
|  | **Deffro/dihuno am gyfnod byr o amser** yn ystod anesthetig cyffredinol (adennill ymwybyddiaeth ar ddamwain) | **5** wedi profi hyn | **99,995** heb brofi hyn |
| | | Dywedodd 3–4 o bob 100,000 o bobl bod hyn wedi para llai na phum munud, cyn y llawdriniaeth neu ar ôl iddi ddod i ben.<br><br>Dywedodd tua 1 o bob 100,000 eu bod wedi teimlo rhywfaint o boen. | |
|  | **Wedi colli eu golwg (mynd yn ddall)** oherwydd pwysau neu glotiau gwaed yn effeithio ar y nerf optig. | **1** wedi profi hyn | **99,999** heb brofi hyn |
|  | **Wedi marw o gymhlethdodau llawdriniaeth** | **14** wedi profi hyn | **99,986** heb brofi hyn |
| | **Wedi marw oherwydd ataliad ar y galon yn ystod neu ychydig ar ôl llawdriniaeth** | **1** wedi profi hyn | **99,999** heb brofi hyn |
| | **Wedi marw oherwydd yr anesthetig** | **1** wedi profi hyn | **99,999** heb brofi hyn |
| | Mae'r risg hon yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, mae'n uwch ar gyfer rhai llawdriniaethau, neu os oedd pobl yn fregus, yn hŷn neu â chyflyrau iechyd penodol. | | |

## Ymwadiad

Rydym yn ymdrechu'n galed iawn i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfredol, ond ni allwn warantu hyn. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn a allai fod gennych chi nac i ymdrin â phopeth a allai fod yn bwysig i chi. Dylech drafod eich dewisiadau ac unrhyw bryderon sydd gennych chi â'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid trin y daflen hon ar ei phen ei hun fel cyngor. Ni chaniateir ei defnyddio at unrhyw ddiben masnachol neu fusnes. I weld yr ymwadiad llawn, ewch i: (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Caiff pob cyfieithiad ei ddarparu gan gymuned cyfieithwyr Translators without Borders. Caiff ansawdd y cyfieithiadau hyn ei wirio er mwyn sicrhau eu bod mor gywir â phosibl, ond gallai fod gwallau a gallai peth gwybodaeth gael ei chamddehongli.

# www.rcoa.ac.uk

patientinformation@rcoa.ac.uk

**© 2024 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion (Royal College of Anaesthetists) (RCoA)**
Caniateir copïo'r wybodaeth hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r wybodaeth hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.